

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Trawsblannu
Dynol (Cymru)**

Mawrth 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: CLA.Committee@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

**Adroddiad ar y Bil Trawsblannu
Dynol (Cymru)**

Mawrth 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cylch gwaith a phwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar 15 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol ac arfer ei bwerau fel y'u nodir yn y Rheolau Sefydlog. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw faterion deddfwriaethol cyffredinol eu natur sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru neu sy'n ymwneud â'r cymhwysedd hwnnw, a chyflwyno adroddiadau arnynt.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Julie James*

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.48, bu Mick Antoniw AC yn dirprwyo ar ran Julie James AC.



Mick Antoniw

Llafur Cymru
Pontypridd

Cynnwys

Argymhellion y Pwyllgor	5
1. Cyflwyniad	7
Cylch gwaith y Pwyllgor	7
2. Cefndir.....	9
Diben y Bil.....	9
Cymhwysedd Deddfwriaethol.....	11
Crynodeb o'r Bil	11
3. Cymhwysedd Deddfwriaethol	13
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	13
4. Sylwadau cyffredinol ar y Bil a'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth	14
Tystiolaeth gan y Gweinidog.....	14
<i>Ein barn</i>	15
5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau ar bwerau penodol.....	17
Pwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth.....	17
Adran 2 - Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu	17
<i>Ein barn</i>	17
Adran 7 - Cynrychiolwyr penodedig	18
<i>Ein barn</i>	20
Adran 8 - Gweithgareddau sy'n ymwneud â deunydd o oedolion (sy'n fyw) nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio	20
<i>Ein barn</i>	23
Adran 14 - Codau ymarfer	23
<i>Ein barn</i>	27
Adran 17 - Dehongli.....	29
<i>Ein barn</i>	30
Adran 19 - Cychwyn	31

Ein barn 31

Argymhellion y Pwyllgor

Casgliad 1: Credwn nad yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn ddigon eglur o ystyried ei bwysigrwydd i'r cyhoedd. Yn ein barn ni, nid yw rhai o ddarpariaethau'r Bil yn glir, a gallai hynny beri dryswch ac, o bosibl, danseilio amcan canolog y Bil, sef cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu.

(Tudalen 15)

Casgliad 2: Rydym hefyd yn pryderu rhywfaint am y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n cael ei adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a hefyd am y gweithdrefnau a gaiff eu defnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth.

(Tudalen 15)

Casgliad 3: Rydym yn synnu bod y Bil yn dibynnu cymaint ar *Fil Meinweoedd Dynol 2004* fel sylfaen ac nad yw'n ceisio egluro diffiniadau, cysyniadau a datblygiadau yn y maes hwn o fewn fframwaith cyfraith gyfunol newydd yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r dull newydd o lunio polisiau sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru.

(Tudalen 15)

Argymhelliad 1: Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i sicrhau bod y gwaith o baratoi cynllun cyfathrebu'n un o ofynion statudol y Bil.

(Tudalen 17)

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod yr Aelod yn cyflwyno gwelliant i gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i reoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 8(2).

(Tudalen 23)

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant i'w gwneud yn glir mai dim ond i oedolion sy'n fyw y mae adran 8 o'r Bil yn gymwys.

(Tudalen 23)

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell bod y Gweinidog, yn ystod Cyfnod 1 o'r ddadl, yn egluro sut y mae adran 27(4) o'r *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* ac adran 17 o'r Bil yn berthnasol i adrannau 5 a 6 o'r Bil ac, felly, yn egluro goblygiadau'r holl ddarpariaethau hyn ar y codau ymarfer a gaiff eu llunio o ganlyniad i adran 14.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn glir na fydd pobl mewn perthynas gymhwysol yn cael eu rancio at ddibenion gwybodaeth a ddarperir o dan adran 4(4)(b) o'r Bil. Yn ein barn ni, mae hyn yn fwy priodol na chynnwys gwybodaeth o'r fath mewn cod ymarfer oherwydd mae'n cynnig mwy o sicrwydd.

(Tudalen 27)

Argymhelliad 6: Rydym o'r farn y dylid ymdrin â mathau newydd o drawsblannu ar wyneb y Bil. Gan hynny, rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i nodi'n glir sut y dylid ymdrin â mathau newydd o drawsblannu. Pe bai angen pwerau i wneud rheoliadau neu god ymarfer ar wahân i wneud darpariaethau o'r fath, dylent fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

(Tudalen 28)

Argymhelliad 7: Yn amodol ar argymhelliad 6, rydym yn argymell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i adran 14(4)(a) o'r Bil i sicrhau bod pob cod ymarfer yn ymwneud â gweithgareddau trawsblannu yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. (Tudalen 28)

Argymhelliad 8: Rydym yn argymell y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer i wneud gorchymyn a gaiff ei gyflwyno o ganlyniad i adran 14(3)(f), sy'n darparu ar gyfer diwygio'r diffiniad o berthynas gymhwysol yng nghyswllt adran 27(4) o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004*. (Tudalen 29)

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso gweithdrefn gadarnhaol i'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 17(4), sy'n caniatáu i'r diffiniad o berthynas gymhwysol at ddibenion y Bil gael ei ddiwygio. (Tudalen 30)

Argymhelliad 10: Rydym yn argymell bod y Gweinidog, drwy gyflwyno gwelliant os yw'n bosibl, yn ei gwneud yn glir pa ddarpariaethau yn y Bil sy'n ddarostyngedig i adran 17(2) a pha ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i adran 27(4) o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* gan gynnwys, os oes angen, a ydynt yn gymwys o dan rai amgylchiadau penodol yn unig. (Tudalen 31)

1. Cyflwyniad

1. Ar 3 Rhagfyr 2012, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Lesley Griffiths AC (“y Gweinidog”), y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) (“y Bil”) a Memorandwm Esboniadol i gyd-fynd ag ef.¹
2. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Bil at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i’w ystyried ar 20 Tachwedd 2012, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol erbyn 22 Mawrth 2013.
3. Bu’r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y Bil yn ei gyfarfod ar 4 Chwefror 2013, ac yn casglu tystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol, sef Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Wedi iddi ymddangos gerbron y Pwyllgor, ysgrifennwyd llythyr at y Gweinidog ar 13 Chwefror 2013² yn gofyn am ragor o wybodaeth a chawsom ateb ar 4 Mawrth 2013.³

Cylch gwaith y Pwyllgor

4. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (“y Pwyllgor”) yw cyflawni swyddogaethau’r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21,⁴ ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy’n gysylltiedig â’r cymhwysedd hwnnw.
5. O fewn y cylch gwaith hwn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a ddylai’r Cynulliad roi sylw arbennig i’r offerynnau yn unol ag

¹ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y *Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)*, Memorandwm Esboniadol, Rhagfyr 2012: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9121-em-e.pdf>

² Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 13 Chwefror. Ar gael yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=219> (Saesneg yn unig)

³ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 4 Mawrth 2013. Ar gael yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=219> (Saesneg yn unig)

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, Rhagfyr 2012

ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21, ac yn cyflwyno adroddiad ar hynny.

6. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad ac ym Miliau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn cyflwyno adroddiad ar hynny.

2. Cefndir

Diben y Bil

7. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn disgrifio diben y Bil:

“Mae Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn rhagnodi sut y mae cydsyniad i'w roi yng Nghymru ar gyfer tynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd dynol at ddibenion trawsblannu. Mae'r Bil yn cwmpasu rhoi organau a meinweoedd ar gyfer trawsblannu a hynny gan roddwyr marw neu roddwyr byw. Mewn perthynas â rhoddwyr marw, mae'n rhoi ar waith ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau a meinweoedd yng Nghymru. Mae system feddal o optio allan yn system lle yr ystyrir bod cydsyniad wedi ei roi ar gyfer tynnu organau a meinweoedd a'u defnyddio ar gyfer trawsblannu oni bai bod y sawl a fu farw wedi mynegi gwrthwynebiad i hynny yn ystod ei oes, a lle y bydd y perthynas agosaf yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad. Nod cyffredin y Bil yw cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael at ddibenion trawsblannu. Bydd hynny o fantais i bobl Cymru gan y bydd yn lleihau nifer y bobl sy'n marw wrth aros i organ addas fod ar gael ac yn gwella bywydau pobl eraill.

“Mae'r Bil yn nodi mewn un lle y prif ddarpariaethau sy'n ymwneud â chydsynio i weithgareddau trawsblannu yng Nghymru Fodd bynnag, er mwyn cynnal cyfundrefn drawsffiniol effeithiol wrth weithredu'r rhaglen drawsblannu organau ledled y DU, yn anochel mae cydadwaith â Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Deddf 2004), sef y fframwaith deddfwriaethol cyfredol i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad i hyn, mae'r Bil yn ailddatgan, gydag addasiadau, adrannau penodol o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 (“Deddf 2004”) yng Nghymru sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â chydsyniad at ddibenion trawsblannu. Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau eraill yn Neddf 2004, nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chydsyniad, heb eu hailddatgan ond maent yn dal yn berthnasol yng Nghymru...ar y cyfan nid oes bwriad gan Lywodraeth Cymru i newid y gyfraith sefydlog yn y maes hwn; y

prif newid sy'n cael ei greu gan y Bil yw cyflwyno'r cysyniad o **gydsyniad a ystyrir**.⁵

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio:

“Effaith y Bil hwn, yn achos pobl sydd dros 18 oed ac sy'n byw ac yn marw yng Nghymru, fydd cyflwyno cysyniad a elwir yn ‘**cydsyniad a ystyrir**’, ar gyfer rhoi organau. Bydd cydsyniad a ystyrir yn bodoli ochr yn ochr â ‘**cydsyniad datganedig**’ fel un o'r ffyrdd i unigolyn gydsynioi roi organau at ddibenion trawsblannu. Bydd unigolion yn cael y cyfle i wneud penderfyniad datganedig, er enghraifft i ‘optio allan’ yn ffurfiol oroi organau drwy roi eu henwau ar gofrestr. Ond os ydynt yn dewispeidio â gwneud hynny, er iddynt gael y cyfle, yna byddant yn cael eutrin fel pe nad oedd ganddynt wrthwynebiad i roi organau (neu mewngeiriau eraill bydd yn gydsyniad a ystyrir). Yn seiliedig ar brofiadgwledydd eraill yn Ewrop â systemau tebyg, byddem yn gobeithiogweld cynnydd yn nifer yr organau sydd ar gael at ddibenion trawsblannu o ganlyniad i hynny.”⁶

9. Mae adran 4 o'r Bil yn cyflwyno'r cysyniad a elwir yn ‘cydsyniad a ystyrir’. ‘Cydsyniad a ystyrir’ yw'r sefyllfa ddiodyfyn ym mhob achos yng Nghymru, ac eithrio'r rhai a restrir fel eithriadau yn adrannau 5 (Oedolion a eithrir) a 6 (Plant).⁷

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi:

“Nid yw'n fwriad newid y ffordd y caiff yr organau a meinweoedd eu casglu neu eu dyrannu, a bydd y trefniadau presennol gyda Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn parhau. Mae hynny'n golygu y bydd Cymru yn parhau i rannu rhestr aros am drawsblannu gyda gweddill y DU a chaiff yr organau eu dyrannu ar sail yr angen clinigol ac organ addas sy'n cydweddu. Mae preswylwyr Cymru wedi elwa o ganlyniad i fod yn rhan o drefniadau'r DU gyfan ers blynnyddoedd lawer ac nid oes unrhyw gynlluniau i newid hynny wrth i ni gyflwyno'r trefniadau newydd ar gyfer cydsynio i roi organau yng

⁵ Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 1 a 2

⁶ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 12

⁷ I'r bobl hynny y gall ‘cydsyniad a ystyrir’ fod yn gymwys iddynt, ceir eithriadau posibl pellach yn adran 4. Disgrifir y rhain ym mharagraffau 17 i 24 o Atodiad A (y Nodiadau Esboniadol) i'r Memorandwm Esboniadol.

Nghymru... Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cytuno mewn egwyddor i wneud gorchymyn yn unol ag adran 150 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a fyddai'n diwygio Adran 1 o Ddeddf 2004. Bydd hyn yn galluogi organau a meinweoedd sy'n cael eu hadalw o dan gydsyniad a ystyrir yng Nghymru i gael eu defnyddio ar gyfer trawsblaniad yn Lloegr a Gogledd Iwerddon."⁸

Cymhwysedd Deddfwriaethol

11. O ran cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol i wneud darpariaeth sy'n ymwneud â chydsynio i dynnu, storio a defnyddio organau a meinweoedd at ddibenion trawsblannu yn unol â Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Pwnc 9 o dan y pennawd Iechyd a Gwasanaethau Iechyd (“Health and Health Services”) yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, yn berthnasol yn y cyddestun hwn ...”⁹

Crynodeb o'r Bil

12. Mae'r Bil yn cynnwys 20 o adrannau ac nid oes Atodlen. Dyma brif ddarpariaethau'r Bil:

- gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu (adran 2);
- darparu bod gweithgareddau penodol a wneir yng Nghymru yn gyfreithlon os cânt eu gwneud â chydsyniad (adran 3);
- nodi sut y rhoddir cydsyniad i weithgareddau trawsblannu, gan gynnwys yr amgylchiadau hynny pan ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi yn absenoldeb cydsyniad datganedig (adrannau 4 i 8);
- ei gwneud yn drosedd i ymgymryd â gweithgareddau trawsblannu yng Nghymru heb gydsyniad (adran 9);

⁸ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 20

⁹ Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 4

- gwneud diwygiadau (adrannau 14 ac 15) i Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, gan gynnwys diwygiadau'n ymwneud â chod ymarfer a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf honno sy'n -
- rhoi canllawiau ymarferol i'r rhai sy'n ymgymryd â gweithgareddau trawsblannu; a
- gosod y safonau a ddisgwylir wrth ymgymryd â gweithgareddau o'r fath, gan gynnwys sut y ceir cydsyniad.¹⁰

¹⁰Adran 1 o'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) fel y'i cyflwynwyd: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld9121-e.pdf>

3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Tystiolaeth gan y Gweinidog

13. O ran y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Bil ac, yn benodol, ei gymhwysedd deddfwriaethol, dywedodd y Gweinidog:

“... we have had very detailed discussions with the UK Government at an official level. The only Minister whom I met was the previous Secretary of State for Wales. Discussions around competence have happened. We believe that we have the competence ... We have also secured the section 150 Order, in relation to taking competence from the Secretary of State, for the Bill.”¹¹

14. Dywedodd yn ddiweddarach na chafodd unrhyw awgrym gan Lywodraeth y DU fod amheuaeth ynglŷn â chymhwysedd.¹²

Ein barn

15. Nodwn na chadarnhawyd a oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol unrhyw bryderon ynghylch cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y deddfwriaeth hon o dan Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

¹¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 12]*, 4 Chwefror 2013

¹² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 13-14]*, 4 Chwefror 2013

4. Sylwadau cyffredinol ar y Bil a'r pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Tystiolaeth gan y Gweinidog

16. Esboniodd y Gweinidog sut y defnyddir pwerau dirprwyedig yn y Bil:

“The Bill provides for the introduction of a soft opt-out system for organ and tissue donation. As such, there are relatively few secondary legislation-making powers in the Bill ... The secondary legislation-making powers allow for additional detail to be provided and for operational detail in the Bill to be amended. We believe that this is much more proportionate than amending the Bill each time a relatively minor practical change is identified. However, it does not alter in any way the major principles that are set out in the Bill.

“The powers of Welsh Ministers to make secondary legislation mirror the current powers of the Secretary of State under the Human Tissue Act 2004. Our policy is to take a different approach to the existing legislative framework only when the policy intent for an opt-out system demands it.”¹³

17. Gan nodi mai'r weithdrefn gadarnhaol a ddynodir fel arfer i wneud is-ddeddfwriaeth, gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd wedi ystyried defnyddio'r weithdrefn uwchgadarnhaol weithiau. Atebodd drwy ddweud:

“The superaffirmative is quite a new procedure and it affects more wide-ranging powers. We believe that this Bill contains very specific powers, which is why we chose the affirmative over the superaffirmative. However, we did consider it ... It is a sensitive and emotive topic and is a decision taken at times of great difficulty for families. We think it is appropriate for the National Assembly to debate any proposed secondary legislation because it is such an emotive topic. There is also wide public interest in the Bill, which is another reason why we chose the affirmative procedure, because it would reassure the

¹³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 13-14]*, 4 Chwefror 2013

public that matters had received appropriate attention from elected representatives.”¹⁴

Ein barn

18. Mae'r Bil hwn yn ymdrin â nifer o faterion emosiynol a moesegol ac, o gofio'i gynnwys, bydd yn effeithio ar bob oedolyn yng Nghymru bron. Y mae, felly, yn fater o gryn bwys i'r cyhoedd. Gan hynny, mae angen i amcanion y Bil, a'r modd y cânt eu cyflawni, fod yn gwbl glir.

Casgliad 1: Credwn nad yw'r Bil, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn ddigon eglur o ystyried ei bwysigrwydd i'r cyhoedd. Yn ein barn ni, nid yw rhai o ddarpariaethau'r Bil yn glir, a gallai hynny beri dryswch ac, o bosibl, danseilio amcan canolog y Bil, sef cynyddu nifer yr organau a'r meinweoedd sydd ar gael i'w trawsblannu.

19. Rydym yn pryderu'n benodol am adran 2 (dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu), adran 8 (gweithgareddau'n ymwneud â deunydd o oedolion (byw) nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio), adran 14 (codau ymarfer) ac adran 17 (dehongli). Rydym yn rhoi sylwadau ar y materion penodol sy'n berthnasol i bob adran ym Mhennod 5.

Casgliad 2: Rydym hefyd yn pryderu rhywfaint am y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd ar wyneb y Bil a'r hyn sy'n cael ei adael ar gyfer is-ddeddfwriaeth, a hefyd am y gweithdrefnau a gaiff eu defnyddio i wneud is-ddeddfwriaeth.

20. Yn benodol, credwn fod angen ymdrin â mathau newydd o drawsblannu ar wyneb y Bil a defnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol yn amlach. Rydym yn rhoi sylwadau ar y materion penodol hyn ym Mhennod 5.

21. Yn fwy cyffredinol, nodwn fod y Bil yn adeiladu ar *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004*.

Casgliad 3: Rydym yn synnu bod y Bil yn dibynnu cymaint ar *Fil Meinweoedd Dynol 2004* fel sylfaen ac nad yw'n ceisio egluro diffiniadau, cysyniadau a datblygiadau yn y maes hwn o fewn fframwaith cyfraith gyfunol newydd yng Nghymru sy'n

¹⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 10]*, 4 Chwefror 2013

adlewyrchu'r dull newydd o lunio polisiau sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru.

Yn ein barn, ni, o gofio y bydd y Bil yn effeithio ar bob oedolyn yng Nghymru bron, byddai wedi bod yn well sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gosod allan mewn un testun deddfwriaethol i sicrhau ei bod yn hygyrch i'r cyhoedd.

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth – sylwadau ar bwerau penodol

Pwerau dirprwyedig i wneud is-ddeddfwriaeth

22. Mae'r Bil yn cynnwys cyfanswm o bump o bwerau dirprwyedig i wneud gorchmynion a rheoliadau (yn ogystal â phwerau ynghylch codau ymarfer). Mae adran 18 o'r Bil yn nodi'r gweithdrefnau i'w defnyddio ar gyfer pob pŵer dirprwyedig, ac eithrio'r rheini'n ymwneud â chodau ymarfer. Mae gweithdrefnau sy'n berthnasol i godau ymarfer i'w mewnosod yn *Neddf Meinweoedd Dynol 2004* drwy gyfrwng adran 14 o'r Bil hwn.

Adran 2 - Dyletswydd Gweinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu

23. Mae Adran 2 yn cynnwys dyletswydd penodol ar Weinidogion Cymru i addysgu'r rhai sy'n byw yng Nghymru am yr amgylchiadau hynny pan ystyrir bod cydsyniad wedi'i roi.

24. Yn ystod ei thystiolaeth, nododd y Gweinidog y caiff cynllun cyfathrebu ei gynhyrchu ochr yn ochr â'r Bil.¹⁵

Ein barn

25. Nodwn fod adran 2 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo trawsblannu. Nodwn hefyd fod y Gweinidog, drwy'i thystiolaeth, wedi tanlinellu pa mor bwysig yw cyfathrebu ac wedi cyfeirio at baratoi cynllun cyfathrebu.

26. Rydym yn cytuno bod cyfathrebu'n hanfodol bwysig: bydd yn rhan hanfodol o'r broses o roi amcanion polisi'r Bil ar waith. O ganlyniad, rydym o'r farn y byddai'n briodol i'r Gweinidog gryfhau'r adran hon o'r Bil.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i sicrhau bod y gwaith o baratoi cynllun cyfathrebu'n un o ofynion statudol y Bil.

¹⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 30]*, 4 Chwefror 2013

Adran 7 - Cynrychiolwyr penodedig

27. Mae adran 7 yn darparu y caiff oedolyn benodi cynrychiolydd i gydsynio i unrhyw un o'r gweithgareddau a nodir yn adran 3 (awdurdodi gweithgareddau trawsblannu).

28. Mae Adran 7(10)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau na all personau o ddisgrifiad penodol weithredu o dan benodiad mewn perthynas â rhywun sy'n marw yng Nghymru (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol).

29. Cynigiodd y Gweinidog enghraifft o'r math o berson y mae'r rheoliadau a wnaed o dan yr adran hon yn cyfeirio atynt, sef pobl nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio¹⁶ gan ychwanegu:

“... we will liaise with the Human Tissue Authority on any potential areas that we may wish to set out in regulations”.¹⁷

30. Ymhelaethodd cyfreithiwr a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog ar natur y ddarpariaeth:

“Under the Human Tissue Act 2004, the power to make regulations is vested in the Secretary of State, but the power has not been used. Here, there is a power for the Welsh Ministers to make regulations, and it is envisaged that that power will be used. It is very important, for anyone who appoints a representative to make an important decision about organ donation et cetera, that that person is fit for purpose. The regulations could cover anything. Capacity is one of the issues we have mentioned, but it could also cover the suitability of the person. I cannot think of an immediate example. “... we will liaise with the Human Tissue Authority on any potential areas that we may wish to set out in regulations”. However, it is all about the suitability of an appointed representative”.¹⁸

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 18]*, 4 Chwefror 2013

¹⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 18]*, 4 Chwefror 2013

¹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 21]*, 4 Chwefror 2013

31. Aeth rhagddi i ddweud:

“There is a secondary issue here, which is that the Human Tissue Act 2004 will continue to apply in Wales, if and when our Welsh legislation is made. There is an inevitable interplay between the Welsh legislation and the Human Tissue Act 2004, because the two pieces of legislation will be relevant. So, wherever possible, we are trying to minimise the movement away from the position in the Human Tissue Act 2004. We want to cause minimum disruption to the existing system and ensure that there is a uniformity of approach, wherever possible, while acknowledging that the Welsh legislation will change the trigger for consent to donation by introducing a deemed consent system.”¹⁹

32. Ychwanegodd y Gweinidog y gallai'r cynllun cyfathrebu ystyried y math o bobl y gellid eu heithrio neu eu hesgusodi ond nododd y byddai'n ysgrifennu at y Pwyllgor i roi rhagor o wybodaeth yn y cyswllt hwn.²⁰

33. Mewn llythyr dyddiedig 4 Mawrth 2013, nododd y Gweinidog:

“... it is important for a person to have confidence in the person they appoint to make decisions about organ donation and Welsh Ministers may wish to prescribe who may not act in this capacity in regulations in order to give the requisite level of protection to individuals. People appointing a representative should have confidence the person they choose is someone who is capable of understanding the issues around organ donation and who will then be able to go on and make a decision on their behalf. As I indicated in Committee, the main category of person exempted therefore is likely to be those who lack capacity, since it is unlikely such a person would be able to understand the issues involved in organ donation and come to a decision on behalf of the deceased. “... we will liaise with the Human Tissue Authority

¹⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 25]*, 4 Chwefror 2013

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 30 a 32]*, 4 Chwefror 2013

on any potential areas that we may wish to set out in regulations.”²¹

34. O ran pa weithdrefn gaiff ei defnyddio i wneud y Rheoliadau hyn, dywedodd cyfreithiwr a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog, fod y syniad o ddefnyddio gweithdrefn uwchgadarnhaol wedi'i ystyried. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y weithdrefn gadarnhaol yn briodol ac yn gymesur. Wrth wneud y pwynt hwn, nododd cyfreithiwr y Gweinidog fod y weithdrefn gyfatebol yn Lloegr yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.²²

Ein barn

35. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ac rydym yn fodlon bod y weithdrefn gadarnhaol, yn unol ag adran 18(3), yn briodol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan adran 7(10).

Adran 8 - Gweithgareddau sy'n ymwneud â deunydd o oedolion (sy'n fyw) nad yw'r galluedd ganddynt i gydsynio

36. Mae adran 8 yn gymwys pan nad yw'r galluedd gan oedolyn sy'n fyw i gydsynio i roi ei organau a'i feinweoedd a phan nad oes penderfyniad mewn grym. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

“Mae'r adran hon yn gymwys pan na fo gan oedolyn byw y galluedd i gydsynio i roi ei organau a'i feinweoedd a phan na fo unrhyw benderfyniad mewn grym. Mae'r adran hon yn cael yr un effaith ag adran 6 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004, ac eithrio mai gan Weinidogion Cymru y bydd y pŵer i ragnodi mewn rheoliadau pryd y gall cydsyniad a ystyrir fod yn gymwys, mewn perthynas â gweithgaredd trawsblannu yng Nghymru. Mae adran 8(2)(a) (lles pennaf y person) yn ailddatgan ar wyneb y Bil hwn ddarpariaeth a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Rheoliadau Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (Personau nad yw'r Galluedd ganddynt i Gydsynio a Thrawsblaniadau) 2004. Er enghraifft, gallai fod er lles pennaf y person nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio i roi deunydd perthnasol i berthynas agos. Mae cydsyniad a ystyrir yn y cyd-destun hwn yn wahanol i

²¹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 4 Mawrth 2013

²² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 27]*, 4 Chwefror 2013

ddarpariaethau cydsyniad a ystyrir a nodir yn adran 4, sy'n ymwneud â rhoddwyr ymadawedig. Fodd bynnag, mae'r cysyniad sylfaenol o gymryd camau heb gydsyniad datganedig yr unigolyn yr un peth.”²³

37. Mae adran 8(2)(b) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau pryd y gellir ystyried bod cydsyniad wedi'i roi mewn perthynas â gweithgareddau trawsblannu yng Nghymru.

38. Esboniodd y Gweinidog:

“The only circumstance where consent of a living adult lacking capacity is deemed is when it is in the person’s best interests; for instance, to donate relevant material to a close relative. This is something that we are looking at in the drafting of the provision to ensure that it is very clear.”²⁴

39. Ychwanegodd y cyfreithiwr oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog:

“It might be in the best interests of the individual who lacks capacity if there is a brother or a sister involved. It does happen; it might be in the family member’s best interests and then it is deemed to be in the individual’s best interests for them to donate.”²⁵

40. Esboniodd hefyd:

“... the Welsh Government’s policy is not to change in any sense the arrangements for living donation ... it is a very complicated, very emotive and sensitive subject matter. Also, the Mental Capacity Act 2005 comes in here, as does case law. ‘Best interests’ is a theme that runs throughout the legislation.”²⁶

41. Dywedodd y Gweinidog fod y Pwyllgor wedi ystyried cymhwyso'r weithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 8(2)(b) ond:

²³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 34]*, 4 Chwefror 2013

²⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 53]*, 4 Chwefror 2013

²⁵ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad A – Nodiadau Esboniadol, paragraff 34

²⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 66]*, 4 Chwefror 2013

“... we have allowed the same level of scrutiny through the current Parliamentary process, which is done through the affirmative procedure.”²⁷

42. Wrth geisio esbonio pam na fyddai'n well ymdrin â'r materion hyn ar wyneb y Bil neu drwy weithdrefn uwchgadarnhaol, dywedodd swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog:

“Currently, each case is dealt with on a case-by-case basis. I think that the Human Tissue Authority would set up a panel to look at each case on an individual merits basis because it could be so different in every case.”²⁸

43. Yn ei llythyr dyddiedig 4 Mawrth, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ystyried y materion yn ymwneud ag adran 8 ymhellach ac, o ganlyniad:

“... I have decided to bring forward a Government amendment to clarify this provision. The change I propose to make will be to amend section 8(2) to retain the power for Welsh Ministers to set out in regulations the circumstances for deeming the consent of a living adult who lacks capacity but to remove the “best interests” test currently at section 8(2)(a). This brings the provision closer to section 6 of the 2004 Act. My intention would then be to set out the best interests test in regulations rather than on the face of the Bill, as has been done by the Secretary of State in the Human Tissue Act 2004 (Persons who Lack Capacity to Consent and Transplants) Regulations 2006. The regulations would be subject to the affirmative procedure. This would remove any queries which have arisen in relation to section 8(2) about whether this leaves potential for Welsh Ministers to prescribe circumstances other than those which are in a person’s best interests for their consent to be deemed.”²⁹

²⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 55]*, 4 Chwefror 2013

²⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 74]*, 4 Chwefror 2013

²⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 4 Mawrth 2013

Ein barn

44. Nodwn sylwadau'r Gweinidog ac rydym yn croesawu ei llythyr dyddiedig 4 Mawrth yn egluro'i hamcanion o ran adran 8.

45. Mae adran 8 yn ymwneud â materion sydd o bwys moesegol sylweddol. O gofio hyn, a bwriad y Gweinidog i ddileu'r prawf lles pennaf o wyneb y Bil a'i gynnwys yn y rheoliadau, credwn y dylid cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i reoliadau a wneir o dan adran 8(2).

Argymhelliad 2: Rydym yn argymell bod yr Aelod yn cyflwyno gwelliant i gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i reoliadau a gaiff eu gwneud o dan adran 8(2).

46. Fodd bynnag, rydym hefyd yn pryderu nad yw'r adran hon yn ddigon clir. Yn benodol, er bod adran 8 yn cyfeirio yn y pennawd at gymhwyso'r darpariaethau hyn i oedolion sy'n fyw, nodwn nad yw hynny'n glir yn y darpariaethau eu hunain. Mae hyn yn peri pryder oherwydd nad yw pennawd yr adran yn rhan o sylwedd y Bil.

Argymhelliad 3: Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ystyried cyflwyno gwelliant i'w gwneud yn glir mai dim ond i oedolion sy'n fyw y mae adran 8 o'r Bil yn gymwys.

Adran 14 - Codau ymarfer

47. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio cefndir y codau ymarfer a sut y mae'r Bil yn ymdrin â nhw:

“...mae'n ofynnol i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ddyroddi cod ymarfer sy'n cynnwys canllawiau a safonau ymarferol. Nid yw'r darpariaethau hyn wedi eu hatgynhyrchu nac eu hailddatgan yn y Bil gan mai dim ond un Awdurdod ac un Cod sydd. Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 felly wedi ei diwygio i adlewyrchu deddfwriaeth Cymru.”³⁰

48. Mae adran 14 felly'n diwygio'r adrannau a ganlyn o Ddeddf 2004: adran 26 (paratoi'r codau), adran 27 (darpariaeth o ran cydsynio), adran 29 (cymeradwyo'r codau) ac adran 52 (gorchmynion a rheoliadau).

³⁰ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad A - Nodiadau Esboniadol, paragraff 41

49. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio'r darpariaethau hyn yn Neddf 2004:

“O dan adran 26 o Ddeddf 2004 rhaid i'r Awdurdod Meinweoedd Dynol ddyroddi cod ymarfer at ddiben rhoi canllawiau ymarferol a gosod y safonau a ddisgwylir wrth gyflawni gweithgareddau gyda chyrff ac organau (gan gynnwys trawsblannu). Mae adran 26(3) o Ddeddf 2004 yn cynnwys darpariaeth benodol i ddweud bod rhaid i'r Cod ymdrin â chydsyniad. Mae adran 27 yn darparu bod rhaid i'r cod gynnwys darpariaeth at yr effaith a nodir yn is-adrannau (4) i (8), sy'n cynnwys rancio a materion ymarferol 84 cysylltiedig eraill, er y caiff yr Awdurdod yn rhinwedd is-adran (3) gynnwys darpariaeth ag effaith wahanol mewn achosion eithriadol. Bydd y darpariaethau hyn yn Neddf 2004 yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru mewn cysylltiad â chydsyniad datganedig a roddir gan berthnasau sy'n gymhwysol, ond bydd y cod ymarfer yn ei gwneud yn glir na fydd perthnasoedd cymhwysol yn cael eu rhancio at ddibenion gwybodaeth a ddarperir o dan adran 4(4)(b) o'r Bil.”³¹

50. Yn benodol, mae adran 27(1) o Ddeddf 2004 yn darparu i unrhyw god ymarfer sy'n ymdrin â chydsyniad gynnwys safonau a osodwyd gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn ymwneud â sicrhau cydsyniad gan berson mewn perthynas gymhwysol. Mae Adran 27(4) o Ddeddf 2004 yn nodi'r hierarchiaeth o bobl sy'n agos at yr ymadawedig sy'n gymwys i roi cydsyniad i weithgareddau penodol.

51. Mae adran 14(3)(f) o'r Bil yn mewnosod is-adran newydd yn adran 27 o Ddeddf 2004 i roi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, yr hierarchiaeth yn adran 27(4) i'r graddau y mae'n gymwys i adran 5(4) neu adran 6(3) o'r Bil. Mae adran 5 o'r Bil yn diffinio oedolion na ellir ystyried eu bod wedi cydsynio i roi organau neu feinweoedd (a gyflwynir gan adran 4). Os yw'r oedolion hyn, serch hynny, wedi datgan eu bod yn dymuno cydsynio (cydsyniad datganedig), mae adran 5(4) yn nodi'r amgylchiadau pan gaiff person mewn perthynas cymhwysol benderfynu cydsynio ar eu rhan. Mae adran 6 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau tebyg yn achos plant.

³¹ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad A - Nodiadau Esboniadol, paragraff 29

52. Gan hynny, mae'r pŵer i wneud gorchymyn, a gyflwynwyd gan adran 14(3)(f) o'r Bil, yn caniatáu i Weinidogion Cymru newid trefn y personau cymhwysol ar y rhestr sydd wedi'i chynnwys yn adran 27 o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 er mwyn darparu cod ymarfer yn ymdrin ag ystyr cydsyniad datganedig ar ran oedolion a eithriwyd (adran 5(4) a phlant (adran 6(3))). Mae'r pŵer i wneud gorchymyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol drwy gyfrwng gwelliant, a gyflwynwyd gan adran 14(5) o'r Bil, i adran 52 o Ddeddf 2004.

53. Mae adran 14(4)(a) o'r Bil yn mewnosod is-adran newydd yn adran 29 o Ddeddf 2004, gan gymhwyso'n benodol y weithdrefn negyddol i godau ymarfer sy'n ymdrin â gweithgareddau trawsblannu yng Nghymru.

54. Cafwyd eglurhad ychwanegol gan gyfreithiwr y Gweinidog o'r modd y mae codau ymarfer yn cyd-fynd â'r drefn drawsblannu:

“... this Welsh legislation, as the Human Tissue Act 2004, is a framework underpinned by the Human Tissue Authority codes of practice, which contain quite a bit of detail. One of the consent issues that is detailed in the code of practice is about family relationships and, when a discussion is happening in a hospital setting with family members, who do you go to, how do you go to them, and, if there is a dispute, what happens? All of that is detailed in the Human Tissue Authority code of practice, and that will continue. We will have a code that will detail the Welsh system, and what happens if somebody does not want to make a decision, or if somebody cannot make a decision or cannot be found, or if there is any dispute among the chain or the ranks— all of that is detailed in a code of practice.”³²

55. Esboniodd hefyd yr amgylchiadau hynny pan fyddai Llywodraeth Cymru, o bosibl, am ddiwygio'r rhestr o berthnasau cymhwysol:

“I believe, from memory, that aunts and uncles are not included in the list, and there is an ongoing debate on a UK basis as to whether they should be, and, if they were, where would they be ranked et cetera. New things develop and societal change might

³² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 93]*, 4 Chwefror 2013

mean that the ranking needs to be changed anyway. The powers will allow for flexibility for that sort of thing ...”³³

56. Ychwanegodd y Gweinidog at y sylwadau hyn drwy ddweud:

“... there is flexibility to add or change, but we would have to do it in light of best practice recommendations from NHS Blood and Transplant or the Human Tissue Authority.”³⁴

57. Dywedodd hefyd y byddai'n ystyried a ddylai'r pŵer i wneud gorchymyn fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol ond, wrth wneud hynny, nododd nad ystyriwyd, yn wreiddiol, y byddai hynny'n gymesur.³⁵

58. Pan holwyd y Gweinidog am y cod ymarfer yng nghyd-destun mathau newydd o drawsblaniadau (yn ymwneud â'r wyneb a'r dwylo er enghraifft), dywedodd:

“In Wales, under deemed consent arrangements, novel transplants ... would not proceed because this ... was covered in the code of practice. It is something that we are looking at in great detail because the Human Tissue Act, like the Bill, does not detail which organs and tissues can be transplanted; it just refers to relevant materials ...”³⁶

59. Cadarnhaodd y Gweinidog y byddai cyfeiriad penodol at fathau newydd o drawsblaniadau mewn cod ymarfer a gaiff ei gyflwyno gerbron y Cynulliad o dan y weithdrefn negyddol,³⁷ gan ychwanegu:

“... the code will contain contentious material ... One issue of which we are mindful is the fact that the code is updated quite regularly. When considering which process to prescribe on the face of the Bill, it was thought that the negative procedure

³³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 95]*, 4 Chwefror 2013

³⁴ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 96]*, 4 Chwefror 2013

³⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 98]*, 4 Chwefror 2013

³⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 117]*, 4 Chwefror 2013

³⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 131 a 132]*, 4 Chwefror 2013

would be more appropriate. However, it is logical to listen to the argument that the code will contain sensitive information.”³⁸

60. Cytunodd i ystyried y weithdrefn y dylid ei defnyddio ac yn ei llythyr dyddiedig 4 Mawrth 2013, dywedodd:

“Having listened to the points made by the Committee I am persuaded this should be amended to allow for the affirmative procedure.”³⁹

Ein barn

61. Mae adran 14, yn ymwneud â chodau ymarfer, yn ddarpariaeth gymhleth, yn enwedig o ran ei chydbertynas ag adrannau 5 a 6 o'r Bil. Hefyd, ac yn gysylltiedig â hyn, nid yw'n glir i ba raddau y mae adran 27(4) o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* (rhestr wedi'i rancio o berthnasau cymhwysol) ac adran 17 (rhestr heb ei rancio o berthnasau cymhwysol) yn gymwys i adrannau 5 a 6.

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell bod y Gweinidog, yn ystod Cyfnod 1 o'r ddadl, yn egluro sut y mae adran 27(4) o'r *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* ac adran 17 o'r Bil yn berthnasol i adrannau 5 a 6 o'r Bil ac, felly, yn egluro goblygiadau'r holl ddarpariaethau hyn ar y codau ymarfer a gaiff eu llunio o ganlyniad i adran 14.

62. Nodwn y sylw ym mharagraff 29 o'r Memorandwm Esboniadol, sef “y bydd y cod ymarfer yn ei gwneud yn glir na fydd perthnasoedd cymhwysol yn cael eu rancio at ddibenion gwybodaeth a ddarperir o dan adran 4(4)(b) o'r Bil”. Nid ydym o'r farn mai cod ymarfer yw'r dull priodol o wneud y pwynt hwn; dylai ymddangos ar wyneb y Bil.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn glir na fydd pobl mewn perthynas gymhwysol yn cael eu rancio at ddibenion gwybodaeth a ddarperir o dan adran 4(4)(b) o'r Bil. Yn ein barn ni, mae hyn yn fwy priodol na chynnwys gwybodaeth o'r fath mewn cod ymarfer oherwydd mae'n cynnig mwy o sicrwydd.

³⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 134]*, 4 Chwefror 2013

³⁹ Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, 4 Mawrth 2013

63. Cyfeiriodd paragraff 20 o'n hadroddiad at ein pryderon o ran y modd y mae'r drefn newydd yn ymdrin â mathau newydd o drawsblannu.

64. Wrth gyflwyno'r Bil, bwriad y Gweinidog oedd ymdrin â mathau newydd o drawsblannu drwy'r cod ymarfer, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Fodd bynnag, yn ei llythyr dyddiedig 4 Mawrth, nododd y Gweinidog ei bod yn bwriadu diwygio'r Bil i sicrhau y byddai'r holl godau ymarfer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

65. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw hyn yn mynd yn ddigon pell. Mae mathau newydd o drawsblannu'n fater o bwys ac o bryder moesegol a chyhoeddus. Hefyd, gall yr hyn y mae math newydd o drawsblannu yn ei olygu newid a datblygu dros gyfnod, yn enwedig wrth i wyddoniaeth a thechnoleg ddatblygu. Yn ein barn ni, gallai unrhyw ansicrwydd ynghylch y materion hyn danseilio hyder y cyhoedd yn amcanion y Bil ac yn y syniad o roi organau'n fwy cyffredinol.

Argymhelliad 6: Rydym o'r farn y dylid ymdrin â mathau newydd o drawsblannu ar wyneb y Bil. Gan hynny, rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i'r Bil i nodi'n glir sut y dylid ymdrin â mathau newydd o drawsblannu. Pe bai angen pwerau i wneud rheoliadau neu god ymarfer ar wahân i wneud darpariaethau o'r fath, dylent fod yn ddarostyngedig i weithdrefn uwchgadarnhaol.

66. Rydym o'r farn y dylai'r holl godau ymarfer eraill barhau i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol o gofio natur y wybodaeth y maent yn debygol o'i chynnwys.

Argymhelliad 7: Yn amodol ar argymhelliad 6, rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn cyflwyno gwelliant i adran 14(4)(a) o'r Bil i sicrhau bod pob cod ymarfer yn ymwneud â gweithgareddau trawsblannu yng Nghymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

67. O ran y pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 14(3)(f) (gweler paragraff 51), nodwn fod y Gweinidog o'r farn na fyddai gweithdrefn uwchgadarnhaol yn gymesur. O gofio'n sylwadau ar bwysigrwydd cyhoeddus y Bil, rydym yn anghytuno.

Argymhelliad 8: Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer i wneud gorchymyn a gaiff ei gyflwyno o ganlyniad i adran 14(3)(f), sy'n darparu ar gyfer diwygio'r diffiniad o berthynas gymhwysol yng nghyswllt adran 27(4) o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004*.

Adran 17 – Dehongli

68. Mae adran 17 o'r Bil yn darparu amrywiol ddiffiniadau, gan gynnwys diffiniad yn adran 17(2) o berthynas gymhwysol at ddibenion y Ddeddf. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Mae'r adran hon yn cynnwys diffiniad o berthynas gymhwysol yn ogystal â'r cyfeiriad at ranc y perthnasoedd hynny yn adran 27(4) o Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004. Mae Deddf 2004 yn diffinio'r term (yn adran 54(9)) yn ogystal â rhancio'r gwahanol berthnasoedd sy'n ffurfio'r diffiniad, drwy adran 27(4) a'r Cod Ymarfer a ddyroddir gan yr Awdurdod Meinweoedd Dynol. Ni chaiff perthnasoedd cymhwysol eu rhancio at ddibenion adran 4(4)(b) o'r Bil hwn (gwybodaeth a all atal cydsyniad a ystyrir), ond byddant yn cael eu rhancio at bob diben arall.”⁴⁰

69. Mae adran 4 o'r Bil yn cyflwyno'r cysyniad mai'r sefyllfa ddiodyn fydd ystyried bod cydsyniad wedi ei roi ym mhob achos yng Nghymru, ac eithrio'r rhai a restrir fel eithriadau yn adrannau 5 (Oedolion a eithrir) ac 6 (Plant).

70. Mae adran 4(4)(b), fodd bynnag, yn caniatáu i berson a oedd mewn 'perthynas gymhwysol' â'r ymadawedig ddarparu gwybodaeth a fyddai'n arwain person rhesymol i ddod i'r casgliad na fyddai'r ymadawedig wedi cydsynio i roi ei organau. Mae'r diffiniad o'r rhai mewn 'perthynas gymhwysol' at ddibenion adran 4 i'w gael yn adran 17(2).

71. Mae adran 17(4) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio, drwy orchymyn, y rhestr yn adran 17(2) o'r hyn yw 'perthynas gymhwysol'.

⁴⁰ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad A – Nodiadau Esboniadol, paragraff 48

72. Mae'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 17(4) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ond cytunodd y Gweinidog i ystyried cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol yn lle hynny.⁴¹

73. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y ffaith bod un rhestr yn y Bil a rhestr wedi'i rancio yn Neddf 2004 yn debygol o greu dryswch a thanseilio'r ymgyrch gyfathrebu a fyddai'n gysylltiedig â'r Bil hwn.⁴² Yn ei hymateb, dywedodd y Gweinidog:

“No, we do not believe that; it will be part of the communications campaign.”⁴³

74. Yna, pan holwyd y Gweinidog am yr agwedd hon ar y Bil yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, dywedodd:

“Clearly, the unranked list is a cause of concern for some people, and I think that perhaps we do need to reflect on this. As we have come to the end of Stage 1, I think that perhaps we do need to have a further look at this”.⁴⁴

Ein barn

75. Rydym o'r farn y dylid cymhwyso gweithdrefn uwchgadarnhaol i'r pŵer i wneud rheoliadau, yn unol ag argymhelliad 17(2).

Argymhelliad 9: Rydym yn argymhell y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso gweithdrefn gadarnhaol i'r pŵer i wneud gorchymyn o dan adran 17(4), sy'n caniatáu i'r diffiniad o berthynas gymhwysol at ddibenion y Bil gael ei ddiwygio.

76. Fel y nodwyd ym mharagraffau 19, 61 a 73, ac argymhelliad 3 yn yr adroddiad hwn, rydym yn pryderu rhywfaint nad yw adran 17 yn ddigon clir.

77. Hefyd, rydym eisoes wedi argymhell (argymhelliad 4) y dylid cyflwyno gwelliant i'r Bil i egluro na fydd perthynas gymhwysol yn cael ei rancio at ddibenion gwybodaeth a ddarperir o dan adran 4(4)(b).

⁴¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 115]*, 4 Chwefror 2013

⁴² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 119]*, 4 Chwefror 2013

⁴³ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 120]*, 4 Chwefror 2013

⁴⁴ Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 87]*, 20 Chwefror 2013

78. Yn fwy cyffredinol, o ddarllen y Bil, nid yw'n glir i ba ddarpariaethau y mae'r rhestrau heb eu rancio ac wedi'u rancio'n gymwys. Er enghraifft, mae adran 17(2), sy'n diffinio 'perthynas gymhwysol,' yn gymwys 'at ddibenion y Ddeddf hon'; o ystyried hyn, nid yw felly'n glir i ba raddau ac o dan ba amgylchiadau y mae adran 17(2) ac adran 14(3(f) (gweler paragraff 50 uchod), yn gymwys i adrannau 5(4) a 6(3) o'r Bil.

Argymhelliad 10: Rydym yn argymell bod y Gweinidog, drwy gyflwyno gwelliant os yw'n bosibl, yn ei gwneud yn glir pa ddarpariaethau yn y Bil sy'n ddarostyngedig i adran 17(2) a pha ddarpariaethau sy'n ddarostyngedig i adran 27(4) o *Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004* gan gynnwys, os oes angen, a ydynt yn gymwys o dan rai amgylchiadau penodol yn unig.

Adran 19 - Cychwyn

79. Mae adran 19(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn darpariaethau penodol yn y Bil drwy orchymyn.

Ein barn

80. Yr arfer safonol yw peidio â rhagnodi gweithdrefn ar gyfer gwneud gorchmynion cychwyn ac rydym yn fodlon â'r ffaith na wneir hyn yn y Bil.